# Adroddiad Ymgynghori

# Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Feithrin yn Nhref Rhydaman



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol ........ 3
2. Cefndir ........ 3
3. Y Broses Ymgynghori ........ 4
4. Y Cynigion ........ 4
5. Dadansoddi'r Ymatebion a Ddaeth i Law ........ 5
6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad / Sylwadau ........ 7
7. Ymateb Estyn i'r Ymgynghoriad ........ 40
8. Ymgynghori â Disgyblion ........ 43
9. Dadansoddiad o Lythyr Rhieni dros Addysg Gymraeg ........ 45
10. Casgliad ........ 47
11. Argymhelliad ........ 47
12. Y Camau Nesaf ........ 48

## 1. Crynodeb Gweithredol

Cafwyd cyfanswm o 121 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol hwn. Yn gyffredinol, y duedd oedd teimlo'n gryf yn erbyn cau Ysgol Feithrin Rhydaman, gyda nifer o ymatebwyr yn mynegi pryderon am y posibilrwydd o golli lleoliad blynyddoedd cynnar pwrpasol, yr effaith ar deuluoedd sy'n gweithio, a'r effaith ar gydlyniant cymunedol a chyfleoedd Cymraeg.

Serch hynny, roedd cyfran lai o'r ymatebion yn dangos cefnogaeth neu gefnogaeth rannol dros y cynigion, yn enwedig ymestyn ystodau oedran mewn ysgolion eraill. Ymhlith y themâu cadarnhaol roedd y potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, gwell parhad i blant sy'n symud i addysg gynradd, a'r cyfle i alinio darpariaeth leol â pholisïau sirol neu genedlaethol ehangach. Yn ogystal soniodd rhai ymatebwyr am arbedion effeithlonrwydd ariannol posibl a'r cyfle i foderneiddio neu symleiddio gwasanaethau.

## 2. Cefndir

Mae'r cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn Rhydaman wedi'i baratoi mewn ymateb i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, lle roedd plant yn gymwys yn hanesyddol i fynd i addysg gynradd amser llawn ar ddechrau'r tymor ysgol pan oeddent yn troi'n bedair oed.

Ar hyn o bryd, mae nifer fach o blant yn ardal Rhydaman yn derbyn addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar yn Ysgol Feithrin Rhydaman, sef yr unig ysgol feithrin a gynhelir yn y sir. Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol sydd ag ystod oedran 3 i 5 yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ac maent yn gallu mynychu ar sail amser llawn ar hyn o bryd er y bydd hyn yn newid i ddarpariaeth ran-amser o fis Ionawr 2026. Mae'r holl ddarpariaeth feithrin arall mewn ysgolion a gynhelir ledled Sir Gaerfyrddin ar sail ran-amser.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn Rhydaman, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r holl sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi'u dogfennu ac yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

## 3. Y Broses Ymgynghori

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Rhoddodd y prosesau ymgynghori gyfle i ymgynghorwyr rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 4 Medi 2025. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynigion dan sylw, y rhesymau dros y cynigion a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â disgyblion y tair ysgol mewn sesiynau pwrpasol gyda chroestoriad o ddisgyblion o bob ysgol.

## 4. Y Cynigion

Ar 4 Medi 2025, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn nhref Rhydaman drwy:

1. Cau Ysgol Feithrin Rhydaman **(Cynnig 1)**

Yn ogystal ag

2. ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11 **(Cynnig 2)**
3. ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 **(Cynnig 3)**

i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman.

## 5. Dadansoddi'r Ymatebion a Ddaeth i Law

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar 4 Medi 2025 a dod i ben ar 16 Hydref 2025, a daeth cyfanswm o 121 o ymatebion i law, ac fe'u hamlinellir yn y tabl isod:

| Yr Ymatebion a Ddaeth i Law | | | |
|---|---|---|---|
| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
| 119 | 1 | 1 | 121* |

***** *Cyfanswm heb gynnwys sylwadau Estyn neu sylwadau'r Ymgynghoriad â Disgyblion***

Ymhlith y themâu allweddol a godwyd ar draws pob ymateb oedd:

- Manteision addysgol a chymdeithasol lleoliad meithrin pwrpasol i blant tair a phedair oed.
- Pryderon am fforddiadwyedd gofal plant, staffio, maint dosbarthiadau, ac addasrwydd safleoedd eraill.
- Pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar ac ofnau y ceir llai o gyfleoedd os bydd y ddarpariaeth yn newid.
- Materion ymarferol fel y broses bontio, effaith gymunedol, a'r angen am gyfathrebu clir ynghylch y rhesymeg dros newid.

### Crynodeb Cyffredinol

| **Cwestiynau'r Ymgynghoriad –** ***Arolwg ar-lein*** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** |
|---|---|---|---|
| Rhowch wybod i ni a ydych chi o blaid: **Cynnig 1 –** Cau Ysgol Feithrin Rhydaman | 12 | 6 | 101 |
| Rhowch wybod i ni a ydych chi o blaid: **Cynnig 2** – Ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11 | 34 | 42 | 43 |
| Rhowch wybod i ni a ydych chi o blaid: **Cynnig 3** – Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 | 29 | 46 | 44 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 1 yr hoffech i ni eu hystyried? | 1 | 43 | 75 |
| Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 2 yr hoffech i ni eu hystyried? | 12 | 95 | 12 |
| Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 3 yr hoffech i ni eu hystyried? | 10 | 86 | 23 |

## Cyfanswm yr ymatebwyr wedi'u categoreiddio yn ôl eu cysylltiad ag ysgol

| | |
|---|---|
| Ysgol Feithrin Rhydaman | 49 |
| Ysgol Bro Banw | 15 |
| Ysgol Gymraeg Rhydaman | 20 |
| Ysgol arall | 11 |
| Dim cysylltiad | 21 |
| Dim ymateb | 3 |

## Categori'r Ymatebydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant/gofalwr neu warcheidwad | 75 | Aelod o'r gymuned | 27 |
| Darpar riant/gofalwr neu warcheidwad | 7 | Cyngor Cymuned | 1 |
| Llywodraethwr | 2 | Arall: | 3 |
| Staff | 3 | Wedi'i adael yn wag | 1 |

## 6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad / Sylwadau

### 6.1 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 1 yr hoffech i ni eu hystyried?

***Cynnig 1 – Cau Ysgol Feithrin Rhydaman***

### Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 12 | 6 | 101 |

### Sylwadau Cefnogol

**Thema: Mynediad Teg at y Ddarpariaeth Gofal Plant:**

Mae'r ymatebydd yn cefnogi cau Ysgol Feithrin Rhydaman ar sail tegwch, gan ddweud nad yw'n deg fod trigolion Rhydaman yn derbyn gofal plant am ddim pan nad yw ar gael i deuluoedd mewn rhannau eraill o'r sir. Os yw'r ysgol feithrin yn parhau i fod ar agor, mae'r ymatebydd yn awgrymu y dylid cyflwyno taliadau i sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y sir.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod pwysigrwydd tegwch a chysondeb wrth ddarparu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar ar draws Sir Gaerfyrddin.

Rydym yn cydnabod pryder yr ymatebydd ynghylch tegwch a chysondeb yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ledled Sir Gaerfyrddin. Yn y gorffennol mae Ysgol Feithrin Rhydaman wedi darparu addysg amser llawn i blant 3 oed, sy'n wahanol i'r ddarpariaeth feithrin arall mewn ysgolion yn y sir. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddileu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, o fis Ionawr 2026 ymlaen bydd yr holl ddarpariaeth feithrin a gynhelir, gan gynnwys Rhydaman, yn cael ei chynnig yn rhan-amser yn unig, gan sicrhau tegwch ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Ni fyddai cyflwyno taliadau am addysg feithrin mewn lleoliad a gynhelir yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu i blant 3 oed. Gallai codi tâl greu rhwystrau i deuluoedd a mynd yn groes i ddyletswyddau statudol.

Bydd y cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman ac ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11 yn cysoni'r ddarpariaeth ar draws y

sir, gan sicrhau bod gan bob teulu fynediad at addysg blynyddoedd cynnar ran-amser ar yr un sail heb gyflwyno ffioedd.

Mae'r ALI wedi ymrwymo i ddarparu darpariaeth blynyddoedd cynnar hygyrch o ansawdd uchel sy'n anelu at gynyddu cyfleoedd i blant gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynnar ac at sicrhau mynediad teg ar draws y sir.

## Pryderon / Anghytuno

**Thema: Colli Ased Cymunedol Gwerthfawr:**

Mae llawer o ymatebwyr yn disgrifio Ysgol Feithrin Rhydaman fel lleoliad hirsefydlog, arbenigol ac unigryw sy'n ganolog i'r gymuned. Maent yn tynnu sylw at ei hanes, ei enw da, a'i rôl wrth ddod â theuluoedd at ei gilydd a chefnogi busnesau lleol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod bod Ysgol Gymraeg Rhydaman yn lleoliad unigryw yn Sir Gaerfyrddin sef yr unig ysgol feithrin a gynhelir yn y sir, ac mae ei rôl hirsefydlog mewn addysg blynyddoedd cynnar wedi cyfrannu at ei henw da a'i statws arbenigol dros y blynyddoedd.

Fodd bynnag mae'r rhesymeg dros newid yn gysylltiedig â gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, a'r angen am ddarpariaeth deg ar draws Sir Gaerfyrddin. Nod y cynigion yw cysoni'r ddarpariaeth feithrin drwy ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11, i gyd-fynd ag ysgolion cynradd eraill yn y sir. Byddai hyn yn sicrhau parhad addysg o fewn un lleoliad ysgol, yn darparu mynediad at gronfa ehangach o staff ac adnoddau, ac yn cefnogi datblygu'r Gymraeg o oedran cynharach.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd effaith gymunedol ac wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith Gymunedol. Mae'n nodi, er bod Ysgol Feithrin Rhydaman yn cynnig clwb brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol ar hyn o bryd, y bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i fod ar gael yn yr ysgolion eraill. Mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman o fewn pellter cerdded i'r safle presennol, sy'n helpu i gynnal cysylltiadau lleol a lleihau tarfu ar deuluoedd.

I grynhoi, er bod y cynigion yn cydnabod gwerth hanesyddol a chymunedol Ysgol Feithrin Rhydaman, maent yn ceisio cydbwyso hyn â'r angen am ddarpariaeth gyson, gynaliadwy a gwell parhad i ddysgwyr. Cynllunnir cymorth trosiannol i deuluoedd a staff i liniaru effaith newid.

**Thema: Effaith Negyddol ar Addysg Gynnar a Datblygiad Plant:**

Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod yr ysgol feithrin yn darparu amgylchedd meithringar, sydd o ansawdd uchel ac sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant ifanc. Mae pryderon y byddai sylfaen hanfodol ar gyfer dysgu, hyder a sgiliau cymdeithasol plant yn diflannu drwy'r cau, yn enwedig yn achos rhai a allai weld pethau'n anodd mewn lleoliadau mwy o faint neu lai arbenigol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod yr amgylchedd meithringar o ansawdd uchel sydd yn Ysgol Feithrin Rhydaman, a'i rôl wrth gefnogi datblygiad cynnar plant.

Safbwynt y Cyngor yw y bydd y ddarpariaeth amgen arfaethedig yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cynnal, ac mewn rhai agweddau, yn gwella'r rhinweddau hyn. Mae'r ddwy ysgol wedi cael adroddiadau cryf gan Estyn (2024) ac yn y categori "Dim Gweithgarwch Dilynol," sy'n dynodi safonau uchel o addysgu, gofal a llesiant. Maent yn cynnig amgylcheddau cynhwysol, diogelu cadarn, a strategaethau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion dysgu yn gynnar. Nod y cynigion yw darparu parhad addysg o fewn un lleoliad ysgol, lleihau'r tarfu ar y broses bontio, a galluogi mynediad at gronfa ehangach o arbenigedd ac adnoddau staff.

Cydnabyddir y pryderon am leoliadau mwy o faint. I liniaru'r pryderon hyn, mae'r Cyngor yn cynllunio proses bontio raddol a chefnogol ar gyfer plant tair oed, gan ddechrau gyda darpariaeth ran-amser a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn. Mae gan y ddwy ysgol amgylcheddau meithringar a systemau bugeiliol cryf, y nododd Estyn eu bod yn gryfder, sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol.

I grynhoi, er bod cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn newid sylweddol, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth amgen yn darparu gofal ac addysg o safon gyfwerth neu well, gyda manteision ychwanegol fel parhad, mynediad at gymorth arbenigol, a chyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar. Mae'r ALl yn credu y bydd trosglwyddo'r ddarpariaeth i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu darpariaeth sydd gystal neu'n well ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar.

---

**Thema: Effeithiau Andwyol ar Deuluoedd sy'n Gweithio a Fforddiadwyedd Gofal Plant:**

Mae sawl datganiad yn dweud bod yr ysgol feithrin yn cynnig darpariaeth amser llawn hanfodol sy'n galluogi rhieni i weithio. Ystyrir y bydd cau'n debygol o greu caledi ariannol i deuluoedd, cynyddu costau gofal plant, a lleihau mynediad at ofal fforddiadwy, dibynadwy.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod bod Ysgol Feithrin Rhydaman wedi darparu addysg feithrin amser llawn yn y gorffennol, sy'n unigryw yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â darpariaeth feithrin arall mewn ysgolion sy'n gweithredu ar sail ran-amser.

O fis Ionawr 2026, roedd wedi'i drefnu eisoes fod yr ysgol feithrin yn symud i ddarpariaeth ran-amser yn unol â gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nod cynigion y Cyngor yw cysoni addysg blynyddoedd cynnar ar draws y sir drwy gynnig darpariaeth feithrin ran-amser yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman. Er y gall y newid hwn leihau mynediad at addysg amser llawn, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr gofal plant preifat a gwirfoddol yn yr ardal. Mae'r cynnig yn nodi'n benodol fod y newid hwn yn creu cyfleoedd i ddarparwyr lleol ehangu eu gwasanaethau, gan helpu i ateb y galw am oriau estynedig a chefnogi'r economi leol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr effaith ariannol bosibl ar deuluoedd ac wedi ymrwymo i ymgynghori'n agored â darparwyr preifat i sicrhau bod digon o opsiynau gofal cofleidiol ar gael. Yn ogystal, mae rhieni plant 3-4 oed sy'n gweithio yn gallu cael mynediad at hyd at 30 awr o addysg a gofal plant cyfunedig wedi'u hariannu drwy Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, a fydd yn helpu i leihau costau ar gyfer llawer o deuluoedd.

---

**Thema: Colli Staff Arbenigol a Safon y Ddarpariaeth:**

Mae arbenigedd ac ymroddiad staff yr ysgol feithrin yn cael eu canmol yn aml. Mae ymatebwyr yn ofni y byddai cau yn arwain at golli ymarferwyr medrus a dirywiad yn ansawdd addysg blynyddoedd cynnar.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi cymaint yw arbenigedd ac ymrwymiad staff Ysgol Feithrin Rhydaman, ac yn cydnabod eu gwerth i addysg blynyddoedd cynnar.

Nid yw'n fwriad gan gynigion y Cyngor i leihau safon addysg blynyddoedd cynnar, ond yn hytrach ei chynnal a gwella arni drwy ei hintegreiddio i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman. Yn ddiweddar mae'r ddwy ysgol wedi cael eu harolygu ac yn y categori "Dim Gweithgarwch Dilynol," sy'n dangos arweinyddiaeth gref, amgylcheddau cynhwysol, a systemau cadarn ar gyfer cefnogi llesiant a dysgu disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig mynediad at gronfa ehangach o arbenigedd staff, cyfleoedd datblygu proffesiynol cydweithredol, ac adnoddau arbenigol, a all gryfhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant oedran meithrin.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cadw staff, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth lawn yn ystod y cyfnod pontio ac mae'n nodi y gallai fod

cyfleoedd i gael gwaith yn yr ysgolion eraill. Nod y dull hwn yw cadw ymarferwyr medrus o fewn y system addysg leol, gan sicrhau parhad gofal a dysgu i blant.

I grynhoi, er bod cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn newid sylweddol, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd disgyblion yn dal i elwa ar arbenigedd staff drwy gyfleoedd adleoli, a bydd ansawdd addysg blynyddoedd cynnar yn cael ei gynnal a'i gryfhau mewn ysgolion mwy o faint, ag adnoddau da.

---

**Thema: Effaith Gymunedol ac Economaidd Ehangach:**

Mae rhai sylwadau yn tynnu sylw at y canlyniadau ehangach i'r dref, gan gynnwys colli swyddi o bosibl, llai o bobl yn mynd i fusnesau lleol, a llai o ymdeimlad o hunaniaeth ac ysbryd cymunedol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Os caiff Ysgol Feithrin Rhydaman ei chau, mae'r ALl yn cydnabod y gallai fod goblygiadau ehangach i'r gymuned leol y tu hwnt i addysg. Mae sylwadau'r ymatebwyr ar golli swyddi a llai o bobl yn mynd i fusnesau lleol yn dangos bod yr ysgol yn ganolfan gymunedol ers tro byd.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yr effeithiau hyn drwy Asesiad o'r Effaith Gymunedol. Er na fydd adeilad yr ysgol feithrin bellach yn gweithredu fel ysgol annibynnol, bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth feithrin o dan Ysgol Gymraeg Rhydaman, gan sicrhau bod y safle yn parhau i gael ei ddefnyddio ac i fod yn hygyrch. Mae'r ddwy ysgol, Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, o fewn pellter cerdded i'r ysgol feithrin bresennol, sy'n helpu i gynnal cysylltiadau lleol a lleihau tarfu ar fusnesau lleol. Yn ogystal, mae'r ysgolion hyn eisoes yn cynnig gwasanaethau tebyg fel clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol, a fydd yn parhau i gefnogi teuluoedd a lleihau'r risg o golli opsiynau gofal plant hanfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pryderon am hunaniaeth ac ysbryd cymunedol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, darperir cymorth trosiannol i deuluoedd a staff, a bydd gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu trefnu i gryfhau'r berthynas â'r ysgolion eraill. Mae'r cynnig hefyd yn creu cyfleoedd i ddarparwyr gofal plant lleol ehangu gofal cofleidiol, a allai helpu i wrthbwyso effeithiau economaidd a chynnal cyflogaeth leol.

I grynhoi, er bod cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn newid sylweddol, nod y Cyngor yw lliniaru effeithiau cymunedol ehangach trwy gadw'r adeilad at ddefnydd addysgol, cynnal gwasanaethau lleol, a chefnogi gwytnwch economaidd trwy gydweithio â darparwyr preifat.

---

**Thema: Pryderon am Ddarpariaeth Amgen a Chapasiti:**

Mae ymatebwyr yn cwestiynu a allai ysgolion lleol eraill ddarparu ar gyfer y plant sy'n cael eu symud, gan nodi materion fel maint dosbarthiadau, diffyg lle, a'r risg y caiff plant eu rhoi mewn amgylcheddau llai addas.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Bydd yr ALl yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth amgen yn ddigonol o ran capasiti, ansawdd, ac addasrwydd i ddiwallu anghenion yr holl blant yr effeithir arnynt. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn mynnu bod yn rhaid i'r ddarpariaeth amgen fod yn gyfwerth o leiaf â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a bod trefniadau pontio ar waith i leihau unrhyw darfu. Bydd y plant yn cael eu symud naill ai i Ysgol Bro Banw neu Ysgol Gymraeg Rhydaman, yn dibynnu ar ddewis y rhieni. Bydd digon o gapasiti yn y ddwy ysgol i ddarparu ar gyfer y plant sy'n cael eu symud.

---

**Thema: Canfyddiad bod Diffyg Tryloywder ac Ymgynghori:**

Mae sawl datganiad yn mynegi anfodlonrwydd â'r broses ymgynghori, gan awgrymu nad yw'r wybodaeth wedi'i rhannu'n llawn a bod y rhesymeg dros gau yn aneglur neu'n cael ei hysgogi gan ffactorau ariannol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ymgynghori'n glir, yn dryloyw, ac yn ystyrlon, fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn rhoi eglurder ar y broses a'r rhesymeg dros y cynigion:

1. **Tryloywder y Wybodaeth**
   Dilynodd y broses ymgynghori *God Trefniadaeth Ysgolion (2018)* Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys amserlen fanwl, rhestr o'r rhanddeiliaid, a sawl ffordd i ymgyngoreion ymateb. Roedd y ddogfen yn nodi'n glir bod y cyfnod ymgynghori rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025, a byddai'r holl ymatebion yn cael eu crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori a fyddai'n cael ei gyhoeddi o leiaf bythefnos cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad statudol. Roedd hefyd yn esbonio'r camau gwrthwynebu a phenderfynu dilynol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

2. **Rhesymeg dros Gau**
   Nid yw'r cynnig yn cael ei ysgogi gan ffactorau ariannol ond mae'n deillio o benderfyniad y Cyngor i waredu'r *Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed* ym mis Mawrth 2024. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd plant yn dechrau'r ysgol yn amser llawn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, felly mae angen adolygu'r ddarpariaeth feithrin er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir ar hyn o bryd, ac mae ei model amser llawn yn wahanol i bob darpariaeth feithrin arall mewn ysgolion. Nod y newidiadau arfaethedig yw cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.
3. **Cyd-destun Ariannol**
   Er bod y ddogfen yn nodi y bydd arbediad refeniw o oddeutu £180k yn deillio o symud i ddarpariaeth ran-amser, sgil-effaith yw hyn yn hytrach na phrif ysgogydd. Y prif amcanion yw tegwch addysgol, cynaliadwyedd, a gwell broses bontio i ddysgwyr.

Yn gryno, mae'r broses ymgynghori wedi'i chynllunio i fod yn agored ac yn gynhwysol, ac mae'r rhesymeg dros gau yn seiliedig ar newidiadau polisi a blaenoriaethau addysgol yn hytrach nag ystyriaethau ariannol yn unig.

Bydd yr holl gynigion, tystiolaeth ategol, ac asesiadau effaith ar gael i randdeiliaid, a bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried yn gydwybodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

## 6.2 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 2 yr hoffech i ni eu hystyried?

## *Cynnig 2 – Ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11*

## Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 34 | 42 | 43 |

## Sylwadau Cefnogol

### Thema: Cefnogaeth ar gyfer Ymestyn Oedran i 3 oed

Ar y cyfan mae ymatebwyr yn cytuno bod gostwng yr oedran dechrau i 3 oed yn fanteisiol, gan roi i blant gyfle i ddechrau cael addysg a dod i drefn ddyddiol yn gynt.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn croesawu'r gefnogaeth i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw. Nod y cynnig hwn yw gwireddu'r manteision hynny drwy gynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar ran-amser yn Ysgol Bro Banw, gan sicrhau parhad addysg o'r ysgol feithrin hyd at Flwyddyn 6. Mae ymchwil a chanfyddiadau Estyn yn dangos bod mynediad cynnar i amgylcheddau dysgu strwythuredig yn cefnogi datblygiad sgiliau sylfaenol, hyder a rhyngweithio cymdeithasol, sy'n hanfodol ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth o ganlyniad i gau Ysgol Feithrin Rhydaman ac yn golygu bod Ysgol Bro Banw yn cyd-fynd ag ysgolion 3–11 eraill ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Nodi anghenion dysgu ac ymyriadau amserol yn gynnar.
- Gwell proses bontio o addysg feithrin i addysg gynradd, gan darfu llai ar ddisgyblion.
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad ieithyddol, yn enwedig yn y Gymraeg, gan gefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r uchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mynediad at amgylchedd meithringar sydd â systemau bugeiliol cryf a chwricwlwm pwrpasol, ysgogol, fel y nodwyd yn arolygiad diweddar yr ysgol gan Estyn.

---

**Thema: Gwell Mynediad at Ofal Plant i Rieni sy'n Gweithio**

Mae sawl sylw yn dweud byddai ymestyn yr ystod oedran yn helpu teuluoedd sy'n gweithio trwy ddarparu gofal plant hygyrch yn yr ysgol a lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth breifat gostus.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth y bydd teuluoedd sy'n gweithio yn elwa ar ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw. Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at addysg blynyddoedd cynnar ran-amser mewn ysgol o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, gan ddarparu amgylchedd strwythuredig, meithringar iddynt a lleihau'r angen i deuluoedd chwilio am drefniadau eraill.

Er bydd y ddarpariaeth yn rhan-amser yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gofal cofleidiol i rieni sy'n gweithio. Mae'r cynnig yn creu cyfleoedd i ddarparwyr gofal plant lleol ehangu gwasanaethau, a bydd teuluoedd yn parhau i elwa ar Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sy'n darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gyfunol wedi'u hariannu i blant cymwys 3–4 oed. Mae'r dull hwn yn cefnogi fforddiadwyedd a hyblygrwydd i rieni wrth gynnal addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel.

Yn ogystal, bydd integreiddio'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Bro Banw yn cryfhau parhad addysg, yn gwella pontio i ddisgyblion, ac yn cyd-fynd ag ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i gydraddoldeb ym mhob un o'r ysgolion 3–11.

---

**Thema: Ffafrio Darpariaeth Diwrnod Llawn a Ffrydiau Iaith**

Ymysg yr adborth cadarnhaol mae ceisiadau am sesiynau diwrnod llawn a pharhau â'r ffrydiau Cymraeg a Saesneg er mwyn cadw'r dewis sydd gan rieni.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae plant sydd wedi troi'n dair oed yn gymwys i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth addysg gymeradwy anstatudol ar sail sesiynol ran-amser, naill ai yn un o'r 42 o ysgolion cynradd yn y sir sydd wedi'u dynodi'n ysgolion 3-11 a lle mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal gan y Cyngor, neu o leiaf 10 awr o addysg mewn lleoliadau cymeradwy nas cynhelir, fel meithrinfeydd dydd neu Gylchoedd Meithrin.

---

**Thema: Cost a Rhyddhad Ariannol i Deuluoedd**

Mae rhai ymatebwyr yn nodi y byddai'r estyniad yn well na thalu ffioedd gofal plant dyddiol uchel, gan wneud addysg yn fwy fforddiadwy.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i wneud addysg blynyddoedd cynnar yn fwy fforddiadwy a hygyrch i bob teulu. Bwriad ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw yw lleihau rhwystrau ariannol a chefnogi teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel.

---

### Thema: Cymorth Amodol yn Gysylltiedig â Chau'r Ysgol Feithrin

Mae rhai datganiadau yn nodi bod ymestyn ystod oedran Bro Banw yn hanfodol os bydd Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod bod cefnogaeth i ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw i 3–11, a hynny fel cam hanfodol os yw Ysgol Feithrin Rhydaman i gau. Mae'r Cyngor yn cytuno bod y cynnig hwn yn rhan allweddol o sicrhau parhad addysg blynyddoedd cynnar yn ardal Rhydaman. Trwy gyflwyno darpariaeth feithrin ran-amser yn Ysgol Bro Banw, mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r bwlch o ganlyniad i gau Ysgol Feithrin Rhydaman, ac yn golygu bod yr ysgol yn cyd-fynd ag ysgolion cynradd 3–11 eraill ledled Sir Gaerfyrddin.

## Pryderon / Anghytuno

### Thema: Cyfleusterau Annigonol i Blant Iau

Pryderon nad yw Ysgol Bro Banw wedi'i hadeiladu'n benodol ar gyfer plant 3 oed, gyda gofodau anaddas (e.e. cabanau symudol) a diffyg amgylcheddau dysgu seiliedig ar chwarae.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod pwysigrwydd amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel sy'n briodol i'r oedran ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar. Bydd yr ALl yn cynnal asesiad llawn o addasrwydd cyfleusterau presennol ac arfaethedig a bydd yn gweithio gyda'r ysgol i wneud yr addasiadau neu'r buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod anghenion plant 3 oed yn cael eu diwallu'n unol â gofynion statudol ac arferion gorau.

---

### Thema: Materion Gorlenwi a Chapasiti

Mae'r ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ysgol eisoes yn fawr a byddai ychwanegu plant iau yn arwain at orlenwi, llai o le, a heriau logistaidd fel parcio.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o gapasiti ac adnoddau i ddarparu ar gyfer disgyblion yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'r ALl wedi adolygu nifer arfaethedig y disgyblion, faint o le sydd ar gael, a sut caiff y safle ei reoli, ac mae'n fodlon na fydd gorlenwi'n digwydd a bydd yr amgylchedd dysgu yn parhau i fod yn ffafriol i addysg o ansawdd uchel.  O ran pryderon logistaidd fel parcio, mae'r ysgolion wedi'u lleoli'n agos i'r safle meithrin presennol, ac mae'r cynnig yn rhagweld mai prin

fydd yr effaith ar batrymau teithio. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd eisoes yn cerdded i'r ysgolion hyn, ac nid oes disgwyl unrhyw gostau trafnidiaeth ychwanegol na newidiadau sylweddol i lif y traffig.

---

**Thema: Staffio a Chyfyngiadau ar Adnoddau**

Dengys y sylwadau fod yr ysgol eisoes dan wasgfa o ran staff addysgu a chyllid. Gallai grŵp blwyddyn arall ychwanegu at lwyth gwaith a straen y staff.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cael lefelau staffio ac adnoddau digonol i gynnal safonau addysgol. Bydd unrhyw gynnig i ymestyn yr ystod oedran yn destun adolygiad o lefelau staffio, anghenion hyfforddi, a dyraniadau cyllid er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chefnogi a'i staffio'n effeithiol.

---

**Thema: Effaith ar Ansawdd yr Addysg**

Ofnau y bydd dosbarthiadau mwy o faint a chyfuno dosbarthiadau yn effeithio'n andwyol ar ansawdd yr addysg ac ar y sylw unigol a roddir i ddisgyblion.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i gynnal a gwella ansawdd yr addysg i bob disgybl. Bydd maint dosbarthiadau, grwpiau, a threfniadau addysgu yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cymorth priodol a sylw unigol. Mae mannau pwrpasol o fewn y safle babanod wedi'u clustnodi ar gyfer defnydd meithrin, a bydd y rhain yn cael eu haddasu i fodloni gofynion y blynyddoedd cynnar. Fel hyn sicrheir bod gan ddisgyblion meithrin eu hamgylchedd dysgu eu hunain, ar wahân i grwpiau blwyddyn hŷn.

---

**Thema: Pryderon am Ddatblygiad Plant Iau**

Mae datganiadau yn awgrymu y gallai'r amgylchedd fod yn ormod i blant iau ac nad oes gan athrawon yr hyfforddiant arbenigol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan achosi oedi mewn datblygiad o bosibl.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod anghenion datblygiadol unigryw plant 3 oed a phwysigrwydd addysgeg blynyddoedd cynnar arbenigol. Bydd yr ALl a'r ysgol yn sicrhau bod staff yn derbyn datblygiad proffesiynol perthnasol a bod trefniadau pontio ar waith i gefnogi plant iau wrth iddynt ymuno â'r ysgol. Bydd y pontio hwn yn raddol ac yn cael ei gefnogi, gan ddechrau gyda darpariaeth ran-amser i helpu plant i setlo yn yr ysgol heb deimlo fod y cyfan yn ormod. Mae gan Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman amgylcheddau meithringar a systemau bugeiliol cryf, y nododd Estyn mewn arolygiad diweddar eu bod yn gryfder, sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol. Dylid nodi hefyd nad yw addysg 3 oed yn statudol, a hawl a dyletswydd rhieni yw penderfynu a ydynt am derbyn y ddarpariaeth ar gyfer eu plant.

---

**Thema: Ffafrio Darpariaeth Feithrin Benodedig**

Mae rhai ymatebwyr yn credu bod cynnal lleoliad meithrin ar wahân yn hanfodol ar gyfer diogelu ansawdd a lleihau'r pwysau ar adnoddau ysgolion cynradd.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod gwerth darpariaeth feithrin benodedig, a bydd yn ystyried yr adborth hwn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Byddwn yn sicrhau bod y model darpariaeth sy'n cael ei ddewis yn diwallu anghenion plant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach, ac yn cynnal safonau uchel o addysg blynyddoedd cynnar. I grynhoi, er newid y strwythur mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ansawdd yn cael ei gynnal a'i wella trwy integreiddio'r ddarpariaeth, cyllid ychwanegol, ac arweinyddiaeth gref.

---

**Thema: Categori Iaith Ysgol Bro Banw**

Gofynnodd yr ymatebydd am gyfleu'n glir y bydd Ysgol Bro Banw yn parhau i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae Ysgol Bro Banw wedi'i dosbarthu fel ysgol categori iaith 3.1 (3=Cymraeg/1=Saesneg), ac ni fydd hyn yn newid.

## 6.3 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch Cynnig 3 yr hoffech i ni eu hystyried?

## *Cynnig 3 - ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11*

## Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 29 | 46 | 44 |

## Sylwadau Cefnogol

**Thema: Cymorth Cyffredinol i'r Cynnig:**

Mae sawl ymatebydd yn mynegi cefnogaeth glir i ymestyn yr ystod oedran, gan ddweud eu bod yn "cefnogi'n llawn" neu'n "cytuno'n gryf" â'r cynnig ac yn credu y bydd o fudd i blant a rhieni yn ardal Rhydaman.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn croesawu'r gefnogaeth i ymestyn yr ystod oedran ac yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr yn credu bydd y newid hwn o fudd i blant a rhieni yn ardal Rhydaman. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sy'n blaenoriaethu mynediad cynnar i addysg ac yn cefnogi datblygu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu a llesiant o'r blynyddoedd cynnar, a Gweledigaeth y Cabinet o wella argaeledd lleoliadau gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar ledled y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan roi pwyslais penodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal.

---

**Thema: Manteision Ymarferol i Deuluoedd:**

Mae rhai sylwadau'n dweud byddai ymestyn yr ystod oedran yn well na thalu costau gofal plant uchel, a byddai'n ateb i deuluoedd sydd angen mynediad at addysg blynyddoedd cynnar.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod y gall ymestyn yr ystod oedran helpu teuluoedd trwy ddarparu addysg blynyddoedd cynnar fforddiadwy a hygyrch.

---

**Thema: Dichonoldeb y Gymraeg:**

Noda un ymatebydd fod llai o blant Cymraeg iaith gyntaf, sy'n awgrymu bod modd ymestyn yr ystod oedran, a gallai hynny gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn nodi'r adborth ynglŷn â nifer y plant Cymraeg iaith gyntaf a dichonoldeb ymestyn yr ystod oedran i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi targedau clir ar gyfer cynyddu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg, a bydd yr ALI yn parhau i fonitro'r galw ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i anghenion y gymuned.

---

**Thema: Ffafrio Parhad y Ddarpariaeth Feithrin:**

Tra'n cefnogi'r cynnig, mae rhai ymatebwyr yn nodi eu bod yn ffafrio cadw'r ysgol feithrin ar agor neu gael Ysgol Gymraeg Rhydaman i gymryd yr awenau fel y feithrinfa cyn-ysgol os na all Ysgol Feithrin Rhydaman barhau.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Tra bo rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, mae rhai'n ffafrio cadw'r ysgol feithrin bresennol neu gael Ysgol Gymraeg Rhydaman i gymryd yr awenau fel y feithrinfa cyn-ysgol os na all Ysgol Feithrin Rhydaman barhau. Dylid nodi mai'r bwriad yw darparu addysg feithrin i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw, ac mai'r rhieni sydd i benderfynu pa ddarpariaeth feithrin fydd eu plant yn mynychu.

---

**Thema: Cymorth Amodol yn Seiliedig ar y Galw:**

Mae rhai datganiadau'n awgrymu mai dim ond os oes digon o alw y dylai'r cynnig fynd rhagddo, ac na ddylid ei ddefnyddio dim ond fel rheswm i gau'r ysgol feithrin.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod bod rhywfaint o'r gefnogaeth yn ddibynnol ar alw digonol am y ddarpariaeth estynedig, ac o'r farn na ddylid defnyddio'r cynnig dim ond fel rheswm dros gau'r ysgol feithrin. Rydym yn rhagweld y bydd digon o alw am y ddarpariaeth mewn ysgolion 3-11 os bydd yr ysgol feithrin yn cau.

---

**Thema: Manteision Posibl i Ddatblygiad Plant:**

Mae'r ymatebwyr yn credu y byddai ymestyn yr ystod oedran o fudd i ddysgu a datblygiad plant, gan roi gwell dechreuad iddynt a chefnogi rhieni.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Drwy ymestyn yr ystod oedran, bwriedir cefnogi dysgu a datblygiad plant, yn unol â ffocws Cynllun y Gymraeg mewn Addysg ar drochi cynnar, datblygiad iaith, a bod yn barod ar gyfer ysgol.

## Pryderon / Anghytuno

**Thema: Diffyg Lle a Gorlenwi:**

Mae llawer o ymatebwyr yn mynegi pryder bod Ysgol Gymraeg Rhydaman eisoes yn llawn neu dros ei chapasiti, fod y gofod ystafell ddosbarth yn annigonol, fod dosbarthiadau'n orlawn, a bod y cyfleusterau'n anaddas (e.e. ystafelloedd haul, cabanau). Maent yn ofni bydd ychwanegu plant iau yn gwaethygu'r sefyllfa ac yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion newydd a rhai presennol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod bod pryderon am ddiffyg lle a gorlenwi posibl yn Ysgol Gymraeg Rhydaman. Bydd yr ALI yn cynnal asesiad trylwyr o'r niferoedd disgyblion cyfredol ac arfaethedig, o'r gofod ystafell ddosbarth, ac o'r cyfleusterau, a bydd yn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau yn effeithio ar pa mor ddiogel, cysurus neu safonol yw'r amgylchedd dysgu. Mae capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu yn Ysgol Gymraeg Rhydaman i ddarparu ar gyfer plant yn y dosbarth meithrin.

---

**Thema: Staffio a Chyfyngiadau ar Adnoddau:**

Mae yna thema sy'n codi dro ar ôl tro sef bod yr ysgol yn ei chael yn anodd fforddio staff ac adnoddau digonol ar gyfer ei nifer gyfredol o ddisgyblion. Mae ymatebwyr yn poeni y bydd ymestyn yr ystod oedran yn rhoi rhagor o wasgfa ar staff, yn lleihau ansawdd yr addysg, ac yn arwain at uno dosbarthiadau.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod pwysigrwydd cael lefelau staffio ac adnoddau digonol i gynnal safonau addysgol. Bydd unrhyw estyniad i'r ystod oedran yn destun adolygiad o lefelau staffio, cyllid, ac anghenion hyfforddi, er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chefnogi'n llawn. Bydd staff digonol sy'n meddu ar y cymwysterau addas yn yr ysgol i ddarparu hyn.

---

**Thema: Ansawdd ac Addasrwydd y Ddarpariaeth ar gyfer Plant Ifanc:**

Mae sawl sylw'n amlygu'r pryderon nad yw amgylchedd yr ysgol yn briodol i blant 3 oed, a allai deimlo gorbryder neu deimlo bod pethau'n ormod mewn lleoliad mawr, prysur. Mae rhai ymatebwyr yn cwestiynu a yw athrawon ysgol yn gymwys i ofalu am y grŵp oedran hwn ac yn rhybuddio am y posibilrwydd o oedi datblygiadol.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed yn briodol yn ddatblygiadol, yn feithringar, ac yn cael ei darparu gan staff cymwys iawn. Bydd yr ALI a'r ysgol yn sicrhau bod staff yn derbyn datblygiad proffesiynol perthnasol a bod yr amgylchedd yn cael ei addasu fel y bo'r angen i gefnogi plant iau. Dylid nodi hefyd fod addysg feithrin 3 oed yn anstatudol, a hawl a dyletswydd rhieni yw penderfynu a ydynt yn teimlo bod y ddarpariaeth yn addas i'w plant eu hunain.

---

**Thema: Effaith ar Ysgolion Eraill a'r Gymuned:**

Mae'r ymatebwyr yn nodi y gallai ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gymraeg Rhydaman gael effaith ar ysgolion lleol eraill, gan eu gadael o bosibl yn brin o niferoedd a pheri gofid i deuluoedd nad oedd yn fwriad ganddynt i'r plant fynychu'r ysgol hon ar ôl oedran meithrin.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Bydd yr ALI yn ystyried effaith bosibl ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ar ysgolion lleol eraill a'r gymuned ehangach. Bydd yr ALI yn gweithio i sicrhau nad yw newidiadau yn achosi anfantais i ysgolion neu deuluoedd eraill yn yr ardal. Rhagwelir y gallai ysgolion eraill ennill disgyblion, gan fod Ysgol Feithrin Rhydaman wedi denu disgyblion o ddalgylchoedd ysgolion eraill yn y gorffennol oherwydd y ddarpariaeth amser llawn. Mae llawer o'r plant hyn wedi tueddu i adael yr ysgol feithrin pan fyddant yn cyrraedd oedran amser llawn a mynychu ysgolion eraill. Os mai rhan-amser yn unig fydd ar gael, byddem yn disgwyl i'r plant hyn aros yn eu dalgylchoedd eu hunain.

---

**Thema: Diffyg Tryloywder ac Ymgynghori:**

Mae rhai datganiadau yn beirniadu'r broses ymgynghori, gan awgrymu nad yw gwybodaeth am ofod, cyllid a gweithredu wedi'i rhannu'n llawn neu nad yw'n glir.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ymgynghori'n glir, yn dryloyw, ac yn ystyrlon, fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn rhoi eglurder ar y broses a'r rhesymeg dros y cynigion:

4. **Tryloywder y Wybodaeth**
   Dilynodd y broses ymgynghori *God Trefniadaeth Ysgolion (2018)* Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys amserlen fanwl, rhestr o'r rhanddeiliaid, a sawl ffordd i ymgyngoreion ymateb. Roedd y ddogfen yn nodi'n glir bod y cyfnod ymgynghori rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025, a byddai'r holl ymatebion yn cael eu crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori a fyddai'n cael ei gyhoeddi o leiaf bythefnos cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad statudol. Roedd hefyd yn esbonio'r camau gwrthwynebu a phenderfynu dilynol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.
5. **Rhesymeg dros Gau**
   Nid yw'r cynnig yn cael ei ysgogi gan ffactorau ariannol ond mae'n deillio o benderfyniad y Cyngor i waredu'r *Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed* ym mis Mawrth 2024. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd plant yn dechrau'r ysgol yn amser llawn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, felly mae angen adolygu'r ddarpariaeth feithrin er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir ar hyn o bryd, ac mae ei model amser llawn yn wahanol i bob darpariaeth feithrin arall mewn ysgolion. Nod y newidiadau arfaethedig yw cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.
6. **Cyd-destun Ariannol**
   Er bod y ddogfen yn nodi y bydd arbediad refeniw o oddeutu £180k yn deillio o symud i ddarpariaeth ran-amser, sgil-effaith yw hyn yn hytrach na phrif ysgogydd. Y prif amcanion yw tegwch addysgol, cynaliadwyedd, a gwell broses bontio i ddysgwyr.

Yn gryno, mae'r broses ymgynghori wedi'i chynllunio i fod yn agored ac yn gynhwysol, ac mae'r rhesymeg dros gau yn seiliedig ar newidiadau polisi a blaenoriaethau addysgol yn hytrach nag ystyriaethau ariannol yn unig.

Bydd yr holl gynigion, tystiolaeth ategol, ac asesiadau effaith ar gael i randdeiliaid, a bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried yn gydwybodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

**Thema: Pryderon am Newid a Cholli'r Ddarpariaeth Bresennol:**

Mae teimlad cryf bod y system bresennol yn gweithio'n dda ac na ddylid ei newid. Mae ymatebwyr yn ofni bydd cynyddu'r ystod oedran yn achosi i ansawdd yr addysg ddirywio ac yn arwain at golli darpariaeth feithrin werthfawr.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod gwerth y system bresennol a'r pryderon am golli darpariaeth feithrin werthfawr. Bydd yr ALl yn sicrhau bod unrhyw bontio'n cael ei reoli'n ofalus a bod ansawdd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei gynnal. Rydym yn credu bydd y ddarpariaeth yn yr ysgolion 3-11 o leiaf o ansawdd cystal, os nad gwell. Bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried yn gydwybodol fel rhan o'r broses statudol, ac mae'r Awdurdod Lleol wedi ymroi i wneud penderfyniadau er budd pennaf plant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach.

---

**Thema: Gwrthwynebiad ac Ansicrwydd Cyffredinol:**

Mae sawl ymateb yn syml yn dweud "Na" neu "Pam newid rhywbeth sy'n gweithio!", sy'n dangos gwrthwynebiad cyffredinol neu ansicrwydd ynghylch y cynnig.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod bod rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig neu'n ansicr am ei fanteision. Bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried yn gydwybodol fel rhan o'r broses statudol, a bydd yr ALl yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud er budd pennaf plant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach.

## 6.4 Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer ardal tref Rhydaman, yn eich barn chi?

*Nodir isod themâu o'r opsiynau eraill:*

**Thema: Cadw Ysgol Feithrin Rhydaman**

- Gwrthwynebiad cryf i'r cau: "Cadwch yr ysgol feithrin ar agor", "Gadewch pethau fel maen nhw".
- Pwyslais ar ei rôl mewn datblygiad plant a'r gymuned: "Yn arwain y sector", "Paratoi plant at y cynradd", "Ysgol arbenigol a dim ond dwy arall sydd yng Nghymru".
- Pryder am yr effaith ar rieni a theuluoedd sy'n gweithio: "Rhieni'n dibynnu ar y gofal plant hwn", "Byddai'r cau'n golygu na allai rhieni weithio".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod y safbwyntiau cryf a fynegwyd gan ymatebwyr sy'n dymuno cadw Ysgol Feithrin Rhydaman ar agor a chadw'r trefniadau presennol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl sydd wedi bod gan yr ysgol yn y gymuned yn y tymor hir, ei henw da fel lleoliad arbenigol, a'i chyfraniad at ddatblygiad plant a chymorth i deuluoedd.

Nid dirywiad mewn ansawdd yw'r rhesymeg dros y cynnig ond sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nod y cynnig yw cysoni addysg blynyddoedd cynnar drwy ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11, i gyd-fynd ag ysgolion cynradd eraill yn y sir ac i wella parhad addysg.

Gweledigaeth yr ALI yw sicrhau bod gan bob dalgylch fynediad at addysg feithrin o ansawdd uchel, a bod unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i wella canlyniadau addysgol a chynaliadwyedd.

---

**Thema: Cyllid a Fforddiadwyedd**

- Ceisiadau am atebion cyllid eraill: "Gofynnwch am daliad fforddiadwy ar gyfer addysg amser llawn", "Gwnewch gais i Lywodraeth Cymru am gyllid".
- Beirniadaeth o fesurau torri costau: "Pam newid rhywbeth sy'n gweithio?", "Dewch o hyd i ffyrdd eraill o dorri costau".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn cydnabod awgrymiadau gan ymatebwyr i chwilio am atebion ariannu eraill, ac er bod y syniadau hyn yn dangos awydd cryf i gadw'r model presennol, mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu o fewn fframweithiau statudol a pholisi. Mae addysg blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn ddarpariaeth anstatudol, ac mae'n ofynnol yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru i'w darparu ar sail ran-amser. Mae gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed yn golygu nad yw addysg feithrin amser llawn bellach yn gyson â'r polisi cenedlaethol, ac felly ni ellir ei chynnal trwy godi tâl yn lleol neu drwy grantiau ychwanegol.

Nid torri costau yw'r rhesymeg dros y cynnig ond yr angen am sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir ar hyn o bryd, ac mae'n gweithredu'n wahanol i bob darpariaeth arall mewn ysgolion ac yn darparu gwasanaeth nad yw ar gael yn un man arall yn y sir. Bydd sicrhau bod Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cyd-fynd ag ysgolion 3–11 oed eraill yn darparu parhad addysg, yn gwella pontio i ddisgyblion, ac yn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

Er bydd y cynnig yn rhoi bod i arbediad refeniw o oddeutu £180k oherwydd symud o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser, sgil-effaith yw hyn yn hytrach na phrif ysgogydd. Y prif amcanion o hyd yw sicrhau cysondeb addysgol, rhoi gwell profiad i'r dysgwyr, a chydymffurfio â pholisi cenedlaethol.

I grynhoi, mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd a'r ymrwymiad i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'r newidiadau arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn cyd-fynd â gofynion statudol a darparu model cynaliadwy a theg ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar ar draws y sir.

---

**Thema: Darpariaeth Feithrin Amser Llawn i blant 3 oed**

- Galwadau am gynnal neu ymestyn y ddarpariaeth amser llawn: "Dewch nôl ag amser llawn o 3 oed", "Caniatewch addysg amser llawn i blant 3 oed".
- Dadl fod hyblygrwydd o fudd i rieni sy'n gweithio: "Dylai rhieni allu dewis optio allan. "

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod y ceisiadau i gynnal neu ymestyn y ddarpariaeth feithrin amser llawn a'r ddadl bod hyblygrwydd o fudd i rieni sy'n gweithio. Yn y gorffennol mae Ysgol Feithrin Rhydaman wedi darparu addysg amser llawn i blant 3 oed, sy'n unigryw i Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, ar ôl gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu bod addysg blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn cael ei darparu ar sail ran-amser. O fis Ionawr 2026 ymlaen, bydd yr holl ddarpariaeth feithrin (a gynhelir) yn Sir Gaerfyrddin yn gweithredu'n rhan-amser, ac ni ellir adfer addysg amser llawn i blant 3 oed dan y trefniadau statudol presennol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyblygrwydd i deuluoedd sy'n gweithio. Er bydd y ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion yn rhan-amser, bydd rhieni'n parhau i elwa ar Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sy'n darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gyfunol wedi'u hariannu i blant cymwys 3–4 oed. Yn ogystal, mae'r cynnig yn creu cyfleoedd i ddarparwyr gofal plant lleol ehangu gofal cofleidiol, helpu i ateb y galw am oriau estynedig, a chefnogi rhieni sy'n gweithio.

I grynhoi, er na ellir cynnal addysg feithrin amser llawn o dan bolisi cenedlaethol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd trwy ddarpariaeth ran-amser mewn lleoliadau ysgol, cynlluniau gofal plant a ariennir, a chydweithredu â darparwyr lleol i sicrhau opsiynau hyblyg, fforddiadwy.

---

## Thema: Seilwaith a Datblygiadau Ysgol

- Cefnogaeth i adeiladu ysgol newydd: "Creu ysgol newydd", "Adeiladu'r uwch-ysgol arfaethedig".
- Pryderon am gyfleusterau presennol: "Bro Banw wedi'i gwasgaru ar draws sawl safle", "Adleoli Ysgol Gymraeg Rhydaman".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch Ysgol Bro Banw yn gweithredu ar draws sawl safle a'r heriau gallai fod ynghlwm wrth hyn. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â hyn drwy ddyrannu mannau pwrpasol ar gyfer darpariaeth feithrin o fewn y safle babanod, gan sicrhau bod gan ddisgyblion iau amgylcheddau priodol ar gyfer dysgu seiliedig ar chwarae.

O ran adleoli Ysgol Gymraeg Rhydaman, nid yw'r cynnig yn cynnwys symud yr ysgol ond yn hytrach defnyddio adeilad presennol Ysgol Feithrin Rhydaman i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau meithrin. Mae'r dull hwn yn sicrhau parhad i deuluoedd, yn lleihau tarfu, ac yn gwneud defnydd effeithlon o'r adnoddau presennol.

Mae'r dull hwn yn gyson ag ymrwymiad y Cyngor i gynaliadwyedd, tegwch a rheoli adnoddau'n effeithlon.

---

## Thema: Trafnidiaeth a Pharcio

Problemau gyda thraffig a pharcio: "Mae traffig yn yr ardal yna'n ofnadwy", "Cyflwyno sticer parcio blynyddol i rieni ar gyfer casglu'r plant".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r cynnig wedi'u lleoli yn agos i safle presennol Ysgol Feithrin Rhydaman, ac felly nid yw'r Cyngor yn rhagweld unrhyw effaith o bwys ar batrymau teithio ac amseroedd teithio. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd eisoes yn cerdded i'r ysgolion hyn, ac nid oes disgwyl unrhyw gostau trafnidiaeth ychwanegol na newidiadau sylweddol i lif y traffig.

Nid ydym yn disgwyl i'r cynnig arwain at unrhyw bwysau ychwanegol ar seilwaith lleol gan na fydd cyfanswm y disgyblion yn fwy nag yw ar hyn o bryd.

---

**Thema: Defnyddio Adeiladau at Ddefnydd Gwahanol**

Syniadau ar gyfer defnydd deuol: "Hwb Cymunedol", "Banc Bwyd yn ystod gwyliau'r haf".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Anogir yr ALl i ystyried y potensial i ysgolion wasanaethu fel hwb cymunedol, gan gynnig ystod o wasanaethau fel gofal plant, dysgu oedolion, a gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fel ffordd o wneud y mwyaf o werth asedau cyhoeddus a chefnogi cydnerthedd cymunedol. Penderfyniad i gorff llywodraethu pob ysgol fydd hwn.

Bydd Ysgol Gymraeg Rhydaman yn defnyddio adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau meithrin. Mae'r dull hwn yn sicrhau parhad i deuluoedd, yn lleihau tarfu, ac yn gwneud defnydd effeithlon o'r adnoddau presennol.

---

**Thema: Cydraddoldeb a Mynediad**

Galwadau am gysondeb ar draws y sir: "Mae llawer mwy yn digwydd mewn ardaloedd eraill", "Ymestyn yr oedran yn yr holl ysgolion cynradd".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymroi i sicrhau mynediad teg i addysg o ansawdd uchel i bob plentyn, beth bynnag y cefndir neu'r lleoliad. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi targedau i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob teulu ddewis o ran iaith a lleoliad. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn am asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob cynnig. Rydym yn adolygu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn barhaus ar draws y sir, ac yn creu ysgolion 3-11 eraill mewn ardaloedd lle mae bwlch yn y ddarpariaeth addysg feithrin. Mewn ardaloedd eraill lle mae'r galw am addysg yn cael ei ddiwallu gan ddarparwyr preifat, bydd ysgolion yn para'n rhai 4-11.

## 6.5a Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Thema: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a pharhad**

Ceisiadau am gynnal neu ehangu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys opsiynau meithrin dwyieithog a Chymraeg yn unig.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI wedi ymroi i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau parhad ieithyddol yr holl ffordd o'r meithrin i addysg uwchradd. Mae gan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg dargedau clir i gynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg a chynnal llwybrau dwyieithog, gan weithio gyda phartneriaid fel y Mudiad Meithrin a darparwyr preifat i sicrhau mynediad ym mhob ardal. Yn achos yr holl gynigion, caiff eu heffaith ar y ddarpariaeth Gymraeg ei hasesu, ynghyd ag i ba raddau maent yn cydymffurfio â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

---

**Thema: Trochi'n gynnar a datblygiad iaith**

Pwyslais ar pa mor bwysig i sgiliau iaith a hyder plant yw dod i gysylltiad â'r Gymraeg yn gynnar.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn blaenoriaethu addysg drochi yn y blynyddoedd cynnar, gan gydnabod bod cyswllt cynnar â'r Gymraeg yn cefnogi rhuglder a hyder. Bydd yr ALI yn parhau i hyrwyddo a datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i drochi o 3 oed, yn unol â gofynion polisi a chwricwlwm cenedlaethol. Bydd y ddarpariaeth hon yn parhau o dan yr ysgolion 3-11.

---

**Thema: Effaith cau'r ysgol feithrin ar yr iaith Gymraeg**

Pryderon y byddai cael gwared ar yr ysgol feithrin yn lleihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a throchi.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Ni fyddai'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad llawn at addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw.

Mae'r ddwy ysgol yn ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg sefydledig ac maent yn gymwys i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o'r cyfnodau cynharaf. Yn bwysig ddigon, byddai dysgwyr yn elwa ar dderbyn eu haddysg yn yr un sefydliad o'r cyfnod meithrin hyd at ddiwedd y cyfnod cynradd. Mae'r parhad hwn yn cefnogi

datblygiad cynyddol sgiliau ar draws y cwricwlwm ac yn hyrwyddo mwy o ruglder a hyder yn yr iaith Gymraeg.

Byddai trosglwyddo'r ddarpariaeth feithrin i'r lleoliadau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu yn y gymuned, yn ogystal â chynnig amgylchedd addysgol cyson a chefnogol i ddisgyblion.

---

**Thema: Risg o raniad iaith**

Ofnau y gallai newidiadau greu rhaniad rhwng plant Saesneg a Chymraeg eu hiaith.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod pwysigrwydd amgylcheddau cynhwysol, dwyieithog a bydd yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw raniad anfwriadol yn digwydd rhwng grwpiau iaith. Mae Ysgol Feithrin Rhydaman wastad wedi gweithredu system ffrwd ddeuol. Mae cynigion wedi'u datblygu i gefnogi integreiddio a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, yn unol â dyletswyddau statudol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar draws y ddwy ysgol 3-11.

---

**Thema: Ystyriaethau Ansawdd a Chapasiti**

Materion ynghylch maint dosbarthiadau, staffio, a chynnal darpariaeth Gymraeg o safon mewn lleoliadau mwy o faint.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn ystyriaeth allweddol ym mhob newid i drefniadaeth. Bydd yr ALl yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i faint dosbarthiadau neu staffio yn cael eu rheoli er mwyn cynnal safonau uchel o ran addysg cyfrwng Cymraeg, gydag adnoddau priodol a chefnogaeth ar gyfer datblygu staff. Mae effaith y cynigion ar safonau addysgol wedi cael ei hasesu, yn ogystal â'u gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn Gymraeg.

---

**Thema: Targedau Cymraeg y Llywodraeth**

Cyfeiriadau at nodau cenedlaethol (e.e. miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a sut gallai'r cynigion atal cynnydd.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r nod yw cynyddu'n sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn achos yr holl gynigion trefniadaethol, mae eu cyfraniad at y targedau hyn yn cael ei werthuso, a bydd yr ALI yn parhau i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi amcanion cenedlaethol. Bydd y ddwy ysgol 3-11 oed yn cefnogi hyn.

---

**Thema: Rôl yr amgylchedd meithrin cyfredol**

Cydnabod bod y lleoliad meithrin presennol yn cefnogi'r Gymraeg drwy ddosbarthiadau bach a darpariaeth â ffocws.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALI yn gwerthfawrogi cyfraniad lleoliadau meithrin bach â ffocws at ddatblygiad y Gymraeg. Lle bo newidiadau'n cael eu cynnig, gwneir ymdrechion i gadw manteision trochi mewn grwpiau bach a chymorth unigol yn y ddarpariaeth newydd neu amgen yn yr ysgolion 3-11, gan sicrhau parhad profiadau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel.

---

**Thema: Canfyddiad na fydd effaith o gwbl neu mai prin fydd yr effaith**

Nododd rhai ymatebwyr na fyddai fawr o wahaniaeth, os o gwbl, o ran cyfleoedd Cymraeg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae pob cynnig yn destun asesiad effaith trylwyr, gan gynnwys ystyried adborth rhanddeiliaid. Lle nodir mai prin fydd yr effaith, bydd yr ALI yn parhau i fonitro canlyniadau i sicrhau bod cyfleoedd Cymraeg yn cael eu cadw a'u gwella lle bynnag y bo modd.

## 6.5b Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Thema: Cynnal y ddarpariaeth feithrin bresennol**

Galwadau am gadw Ysgol Feithrin Rhydaman ar agor heb unrhyw newid, gyda phwyslais dro ar ôl tro ar "peidiwch â'i chau" ac "os yw'n gweithio, pam newid?"

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegwyd gan ymatebwyr sy'n dymuno cadw Ysgol Feithrin Rhydaman ar agor. Rydym yn cydnabod y rôl sydd wedi bod gan yr ysgol yn y gymuned yn y tymor hir, a'i henw da fel lleoliad. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ysgogi'r cynigion yw'r angen am sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nid lleihau safon yr addysg yw ein bwriad ond cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chadw cyfleoedd da iawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cymorth pontio yn cael ei roi i darfu cyn lleied ag y bo modd ar deuluoedd a staff, ac rydym dal wedi ymrwymo i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn ardal Rhydaman.
Bydd yr ALl yn sicrhau bod unrhyw newidiadau er budd pennaf dysgwyr a'r gymuned, a bod y rhesymeg dros y cynigion wrth symud ymlaen a'r adborth yn cael eu cyfathrebu'n glir a'u cyfiawnhau i'r Cabinet.

---

**Thema: Ffocws ar gyfrwng Cymraeg**

Awgrymiadau i wneud yr ysgol feithrin yn un hollol Gymraeg ei chyfrwng neu i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg (e.e., "Cadw'n amser llawn a throi'r Ysgol Feithrin yn un Cymraeg yn unig", "Darparu ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg yn unig", "Y Gymraeg ddylai fod yr iaith gyntaf").

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r targedau cenedlaethol. Bydd cynigion yn cael eu datblygu i sicrhau bod llwybrau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ac yn hygyrch drwy'r ysgolion 3-11, a bod categori iaith y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r galw lleol ac yn cefnogi'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd y plant yn cael eu symud naill ai i Ysgol Bro Banw neu Ysgol Gymraeg Rhydaman, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

---

**Thema: Trochi cynnar a pharhad**

Ceisiadau am sicrhau bod plant yn cael mynediad i'r Gymraeg yn gynt ac yn cynnal parhad drwy'r camau addysg (e.e., "Cael eich trochi yn y Gymraeg yn gynt", "Gellid ei weithredu i sicrhau effeithiau cadarnhaol plant sy'n cael mynediad i'r iaith yn gynharach...").

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn blaenoriaethu trochi cynnar yn y Gymraeg, gan gydnabod pwysigrwydd hynny i ddatblygiad a pharhad iaith. I gyflawni hyn, mae'r cynigion i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11 wedi'u cynllunio i ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg o'r camau addysg cynharaf yn y naill ysgol a'r llall. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gall plant ddechrau eu taith ieithyddol yn dair oed a pharhau'n ddi-dor trwy addysg gynradd heb unrhyw darfu.

---

**Thema: Cadw manteision lleoliadau bach**

Cydnabod bod maint bach yr ysgol feithrin yn cefnogi rhyngweithio un-i-un a datblygiad y Gymraeg; rhywbeth a allai gael ei golli mewn ysgolion mwy.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn cadw cymarebau staffio priodol, gan ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y Gymraeg a sicrhau bod gan ddosbarthiadau meithrin fannau pwrpasol ar gyfer dysgu seiliedig ar chwarae. Ein nod yw diogelu'r amgylchedd meithringar a'r sylfeini ieithyddol cryf y mae rhieni a gofalwyr wedi dweud eu bod yn bwysig.

---

**Thema: Cymuned a dewis rhieni**

Pryderon am gyfyngu ar opsiynau rhieni a'r angen am gynnal hyblygrwydd wrth ddewis ysgol (e.e., "Cadw opsiynau – a fydd hyn yn cyfyngu ar ddewis pobl...").

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ddarparu ystod o opsiynau i rieni, sy'n cynnwys rhai cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd cadw dewis rhieni a hyblygrwydd mewn addysg blynyddoedd cynnar. Mae'r cynigion i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman wedi'u cynllunio i gynyddu'r opsiynau ar gyfer teuluoedd, nid eu lleihau. Bydd mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gan rieni o hyd, a bydd y newidiadau yn sicrhau bod y ddarpariaeth feithrin dal ar gael o fewn pellter cerdded i'r safle presennol. Ein nod yw darparu darpariaeth deg o ansawdd uchel ledled Sir Gaerfyrddin, gan gadw dewis a chefnogi anghenion amrywiol teuluoedd.

---

## 6.5c Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effeithiau niweidiol neu fel fod ei effeithiau'n llai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

### Thema: Cynnal y ddarpariaeth feithrin bresennol

Mae llawer o'r ymatebion yn galw am gadw Ysgol Feithrin Rhydaman ar agor ac yn ddigyfnewid, gyda nifer o'r datganiadau'n dweud "Peidiwch â chau'r ysgol feithrin!", "Cadwch pethau fel maen nhw", "Cadwch Ysgol Feithrin Rhydaman fel mae hi".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod cryfder y teimlad a fynegwyd gan ymatebwyr sy'n dymuno cadw Ysgol Feithrin Rhydaman ar agor. Rydym yn cydnabod y rôl sydd wedi bod gan yr ysgol yn y gymuned yn y tymor hir, a'i henw da fel lleoliad. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ysgogi'r cynigion yw'r angen am sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nid lleihau safon yr addysg yw ein bwriad ond cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chadw cyfleoedd da iawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cymorth pontio yn cael ei roi i darfu cyn lleied ag y bo modd ar deuluoedd a staff, ac rydym dal wedi ymrwymo i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn ardal Rhydaman.

---

### Thema: Cydnabod gwerth diwylliant a dwyieithrwydd

Mae sawl sylw yn amlygu rôl yr ysgol feithrin wrth hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant, a'n hanes, a'i hamgylchedd dwyieithog (e.e., "Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn ddwyieithog ac mae pob disgybl yn rhyngweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg", "Mae'r Ysgol Feithrin yn cyfrannu'n helaeth at ddatblygiad y Gymraeg a hanes a diwylliant Cymru").

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant, fel y nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Cydnabyddir gwerth amgylcheddau dwyieithog a rhai sy'n ddiwylliannol gyfoethog, a bydd unrhyw gynigion yn cael eu datblygu i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ymgysylltu'n ddiwylliannol yn cael eu cynnal neu eu gwella. Mae'r effaith ar y Gymraeg a'r diwylliant yn ystyriaeth allweddol ym mhob penderfyniad. Credwn y bydd trosglwyddo plant i Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

---

**Thema: Awgrymiadau eraill neu liniaru**

Mae rhai yn awgrymu camau penodol, megis "Gwnewch ddigon o le i'r galw yn YGR", neu "Trwy beidio â mynd ymlaen".

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ystyried yr holl ddewisiadau eraill rhesymol a mesurau lliniaru fel rhan o'r broses statudol. Mae hyn yn cynnwys adolygu capasiti yn yr ysgolion sy'n derbyn, sicrhau digon o leoedd cyfrwng Cymraeg, ac ystyried a ellir diwygio cynigion i fynd i'r afael â phryderon. Mae effaith yr holl ddewisiadau eraill ac opsiynau lliniaru ar gyfleoedd yn y Gymraeg a chanlyniadau addysgol wedi cael ei hasesu. Bydd capasiti Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cael ei gynyddu fel rhan o'r cynnig hwn.

---

**Thema: Pryderon am lwybrau cyfrwng Saesneg**

Mae un ymateb yn nodi, "Mae plant yn mynd i ffrydiau Saesneg", sy'n mynegi pryder am y cydbwysedd rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu llwybrau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn unol â dewis rhieni a'r galw lleol. Mae'r cynigion wedi cael eu hasesu i sicrhau nad ydynt o anfantais i'r naill grŵp iaith na'r llall, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ein nod yw cynnal cyfleoedd Cymraeg cryf tra'n cadw hyblygrwydd i deuluoedd.

## 6.6 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?

**Thema: Gwrthwynebiad cryf i gau'r ysgol feithrin**

Mae llawer o ymatebion yn annog peidio â chau Ysgol Feithrin Rhydaman, gan bwysleisio ei gwerth i'r gymuned, plant a theuluoedd.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod y gefnogaeth sylweddol sydd i gadw Ysgol Feithrin Rhydaman ac yn cydnabod ei rôl werthfawr yn y gymuned.

Rydym yn sylweddoli cymaint o bwyslais sydd ar ei chyfraniad at ddysgu plant, cymorth i deuluoedd, a chydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ysgogi'r cynigion yw'r angen am sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin yn

dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nid lleihau safon yr addysg yw ein bwriad ond cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chadw cyfleoedd da iawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cymorth pontio yn cael ei roi i darfu cyn lleied ag y bo modd ar deuluoedd a staff, ac rydym dal wedi ymrwymo i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn ardal Rhydaman.

---

**Thema: Pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar fechan, gymunedol**

Mae'r sylwadau'n tynnu sylw at fanteision lleoliad meithrin bach, pwrpasol ar gyfer dysgu'r plant, eu hyder a'u llesiant, yn ogystal â'r berthynas agos rhwng staff, plant a rhieni.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn cydnabod y sylwadau ynghylch manteision canfyddedig lleoliadau blynyddoedd cynnar bach, cymunedol wrth gefnogi datblygiad plant a meithrin perthnasoedd cryf. Ein nod yw sicrhau bod plant yn parhau i gael profiad o amgylchedd meithringar sy'n hyrwyddo hyder, llesiant a dysgu o ansawdd uchel yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

---

**Thema: Pryderon am yr effaith ar deuluoedd sy'n gweithio a gofal plant**

Mae sawl ymateb yn sôn am yr angen am ofal plant fforddiadwy, hygyrch a hyblyg, a'r heriau fyddai newidiadau i'r ddarpariaeth feithrin neu'r oriau yn eu creu i rieni sy'n gweithio a gofalwyr.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio trwy sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar yn hygyrch, fforddiadwy a hyblyg. Bydd effaith y cynigion ar argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant yn cael ei hasesu, a bydd yr ALl yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o darfu ac i gefnogi anghenion teuluoedd.

---

**Thema: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a diwylliannol**

Mae rhai ymatebwyr yn galw am gryfhau neu gynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys awgrymiadau i wneud yr ysgol feithrin yn un hollol Gymraeg a phryderon am yr effaith ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn Rhydaman.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i hyrwyddo ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r targedau cenedlaethol. Caiff yr holl gynigion eu datblygu i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ymgysylltu'n ddiwylliannol yn cael eu cynnal neu eu gwella. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau y bydd plant meithrin/tair oed yn gallu derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Rhydaman a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Bro Banw.

---

**Thema: Tryloywder ac eglurder y cynnig**

Ceisiadau am gyfathrebu cliriach ynghylch y rhesymau dros y cynnig, ei bwrpas, a'i effeithiau posibl. Mae rhai'n mynegi pryder neu rwystredigaeth am y broses a'r diffyg gwybodaeth.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ymgynghori'n glir, yn dryloyw, ac yn ystyrlon, fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn rhoi eglurder ar y broses a'r rhesymeg dros y cynigion:

7. **Tryloywder y Wybodaeth**
   Dilynodd y broses ymgynghori *God Trefniadaeth Ysgolion (2018)* Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys amserlen fanwl, rhestr o'r rhanddeiliaid, a sawl ffordd i ymgyngoreion ymateb. Roedd y ddogfen yn nodi'n glir bod y cyfnod ymgynghori rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025, a byddai'r holl ymatebion yn cael eu crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori a fyddai'n cael ei gyhoeddi o leiaf bythefnos cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad statudol. Roedd hefyd yn esbonio'r camau gwrthwynebu a phenderfynu dilynol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.
8. **Rhesymeg dros Gau**
   Nid yw'r cynnig yn cael ei ysgogi gan ffactorau ariannol ond mae'n deillio o benderfyniad y Cyngor i waredu'r *Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed* ym mis Mawrth 2024. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd plant yn dechrau'r ysgol yn amser llawn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, felly mae angen adolygu'r ddarpariaeth feithrin er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir ar hyn o bryd, ac mae ei model amser llawn yn wahanol i bob darpariaeth feithrin arall mewn ysgolion. Nod y newidiadau arfaethedig yw cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chyd-fynd â blaenoriaethau

cenedlaethol megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

9. **Cyd-destun Ariannol**
   Er bod y ddogfen yn nodi y bydd arbediad refeniw o oddeutu £180k yn deillio o symud i ddarpariaeth ran-amser, sgil-effaith yw hyn yn hytrach na phrif ysgogydd. Y prif amcanion yw tegwch addysgol, cynaliadwyedd, a gwell broses bontio i ddysgwyr.

Yn gryno, mae'r broses ymgynghori wedi'i chynllunio i fod yn agored ac yn gynhwysol, ac mae'r rhesymeg dros gau yn seiliedig ar newidiadau polisi a blaenoriaethau addysgol yn hytrach nag ystyriaethau ariannol yn unig.

---

**Thema: Awgrymiadau eraill a lliniaru**

Mae'r awgrymiadau'n cynnwys digwyddiadau codi arian, ymestyn ystod oedran Bro Banw, neu adolygu'r cynnig i ddiwallu anghenion cymunedol yn well.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Bu i'r ALl ystyried yr holl ddewisiadau eraill rhesymol a mesurau lliniaru fel rhan o'r broses statudol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu capasiti yn yr ysgolion sy'n derbyn, sicrhau digon o leoedd cyfrwng Cymraeg, ac ystyried a ellir diwygio cynigion i fynd i'r afael â phryderon.

---

**Thema: Pryderon am ysgolion mwy o faint a dosbarthiadau mwy o faint**

Pryderon y gallai symud plant i ysgolion cynradd mwy o faint fod yn ormod i blant ifanc, cynyddu maint dosbarthiadau, a lleihau ansawdd y gofal a'r addysg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn deall y pryderon am symud plant iau i ysgolion cynradd mwy a'r effaith bosibl ar faint dosbarthiadau ac ansawdd gofal. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau yn effeithio ar lesiant plant nac ar safonau addysgol. Bydd lleoedd meithrin pwrpasol o fewn yr ysgolion eraill, a bydd cymarebau staffio yn cael eu cadw i fodloni gofynion y blynyddoedd cynnar. Bydd maint dosbarthiadau a grwpiau yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau amgylchedd meithringar a sicrhau y rhoddir sylw i unigolion.

---

**Thema: Cydnabod llwyddiant blaenorol ac enw'r da'r ysgol feithrin**

Datganiadau bod gan Ysgol Feithrin Rhydaman hanes hir o lwyddiant, ei bod yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr, a'i bod yn rhoi dechrau ardderchog i blant.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl yn gwerthfawrogi cyfraniad Ysgol Meithrin Rhydaman at addysg blynyddoedd cynnar, ac yn cydnabod ei henw da a'i rôl yn y gymuned yn y tymor hir. Rydym yn sylweddoli cymaint o bwys sy'n cael ei roi ar ei llwyddiant a'r dechrau gwych mae'n ei roi i blant. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ysgogi'r cynigion yw'r angen am sicrhau tegwch a chynaliadwyedd ar draws Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Nid lleihau safon yr addysg yw ein bwriad ond cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chadw cyfleoedd da iawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cymorth pontio yn cael ei roi i darfu cyn lleied ag y bo modd ar deuluoedd a staff, ac rydym dal wedi ymrwymo i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn ardal Rhydaman.

---

**Thema: Ystyriaethau ariannol**

Mae rhai sylwadau yn cyfeirio at faterion ariannu, cymhellion arbed costau, neu'n cynnig cyflwyno taliadau os yw'r ysgol feithrin i aros ar agor.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Ni fyddai cyflwyno taliadau am addysg feithrin mewn lleoliad a gynhelir yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu i blant 3 oed. Gallai codi tâl greu rhwystrau i deuluoedd a mynd yn groes i ddyletswyddau statudol.

---

**Thema: Canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth i'r cynnig**

Mae sawl ymateb yn nodi mai prin yw'r gefnogaeth, os o gwbl, i'r newidiadau arfaethedig.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ymgynghori'n ystyrlon a bydd yn ystyried yr holl adborth a geir yn gydwybodol. Bydd lefel y gefnogaeth neu'r gwrthwynebiad yn y gymuned yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau, a bydd yr ALl yn sicrhau bod barn yr holl randdeiliaid yn cael ei hystyried yn unol â gofynion statudol.

## 7. Ymateb Estyn i'r Ymgynghoriad

**Ymateb Estyn i ymgynghoriad ar gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn nhref Rhydaman o fis Medi 2026**

**Cyflwyniad**
Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côd cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae rheidrwydd arno i gydymffurfio â'r Côd, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth ddarparwyd gan y cynigydd.

**Crynodeb/Casgliadau**
Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a safonau'r disgyblion yn yr ardal o leiaf.

**Disgrifiad a manteision**
Ymddengys fod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno rhesymeg glir dros newid yn unol â phenderfyniad Cabinet y Cyngor i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2024. Mae hyn wedi rhoi cyfle i adolygu'r ddarpariaeth feithrin yn yr ardal ac i fod yn gyson ar draws y sir.

Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i nodi'r prif fanteision ac anfanteision ar gyfer y cynnig. Mae'r manteision yn nodi'r pontio graddol â chymorth i blant 3 oed sy'n mynd i'r ysgol, y potensial ar gyfer cyflogaeth mewn ysgolion eraill, safoni'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman yn unol ag ysgolion eraill ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn Sir Gaerfyrddin, a mwy o gyfleoedd i ddarparwyr gofal plant preifat sy'n cynnig gofal cofleidiol. Mae'r awdurdod yn cydnabod anfanteision y cynnig, megis y newid i'r staff, y disgyblion, a'r teuluoedd sy'n dibynnu ar ddarpariaeth amser llawn at ddibenion gwaith neu ofalu, o ran gorfod gwneud trefniadau eraill. Yn ogystal, colli'r ethos ysgol fach a disgyblion yn gorfod addasu i amgylchedd ysgol fwy o faint. Mae'r awdurdod wedi nodi camau priodol i roi sylw i'r risgiau posibl.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried dewisiadau eraill ond wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r rhain gan nad oeddent yn cyd-fynd â phenderfyniad diweddar Cabinet y Cyngor Sir i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin. Nid oeddent ychwaith yn sicrhau darpariaeth gyson ar draws yr ysgolion yn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu ar gyfer plant 3-11 oed. Hefyd, Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu addysg amser llawn.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith gaiff y cynnig ar gludiant, gan nodi oherwydd bod y ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion sydd o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion, ac felly nid oes unrhyw gostau cludiant yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod wedi darparu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i weld i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd. Mae'n nodi byddai'r cynnig yn cynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant tair oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw a byddai'n cryfhau'r broses bontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal tref Rhydaman. Ni fydd yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.

**Agweddau addysgol y cynnig**
Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth i effaith y cynnig ar ansawdd addysg ac yn gwneud sylwadau ar adroddiad arolygiad diweddaraf yr ysgol gan Estyn a'i pherfformiad. Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod Ysgol Feithrin Rhydaman wedi derbyn adroddiad cadarnhaol iawn ym mhob maes a bod yr ysgol wedi cael tri argymhelliad. Mae'r awdurdod yn credu y byddai effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman a throsglwyddo disgyblion gyda'u cyfoedion i ysgol gynradd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed, yn galluogi disgyblion i gael gwell mynediad at ystod ehangach o brofiadau.

Mae'r awdurdod yn credu nad oes unrhyw effaith bosibl ar ddatblygiad sgiliau disgyblion gan fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau yn dda ym mhob ysgol. Nodir yn holl adroddiadau'r arolygiad fod y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u mannau cychwyn. Safbwynt y Cyngor yw y byddai Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf neu'n well na'r hyn a ddarperir yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Felly, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ragwelir y byddai'n cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

O ran profiadau addysgu a dysgu, mae'r awdurdod lleol yn nodi nad oes unrhyw effaith negyddol bosibl gan fod ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm ar draws Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn effeithiol iawn. Mae athrawon ar draws yr ysgolion yn cynllunio'n fanwl ac yn darparu ystod o brofiadau dysgu arbennig sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'r awdurdod yn awgrymu y byddai'n sicrhau bod rhagor o staff i rannu arbenigedd er mwyn gwella'r ddarpariaeth cynllunio'r cwricwlwm. Yn ogystal, dywed yr awdurdod lleol y byddai'r cynnig yn hwyluso addysg gyson ddi-dor, a thrwy hynny leihau'r posibilrwydd o darfu wrth drosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Mae'r cynnig yn amlinellu nad oes gan Ysgol Feithrin Rhydaman arweinyddiaeth barhaol. Mae pennaeth dros dro ar y safle am dri diwrnod yr wythnos yn dilyn ymddeoliad y pennaeth blaenorol. Nid oes modd i'r ysgol recriwtio pennaeth amser llawn nad yw'n addysgu oherwydd cyfyngiadau ariannol. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddent yn sicrhau bod gan bob disgybl bennaeth amser llawn parhaol ar y safle. Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig, pe bai'n cael ei fabwysiadu, yn cael

effaith negyddol ar ddatblygu blaenoriaethau cenedlaethol neu gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff. Mae prosesau monitro effeithiol yn sicrhau bod arweinwyr, staff ac aelodau'r corff llywodraethu i gyd yn ymwneud â gwerthuso gwaith yr ysgol a chefnogi staff i nodi anghenion dysgu proffesiynol personol ochr yn ochr â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ar draws pob ysgol. Os caiff ei fabwysiadu, mae'r awdurdod yn dweud bydd y cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion ar draws tri safle yn hytrach nag ar draws y pedwar safle presennol. Bwriedir i hyn gael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

## Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn

Mae'r ALI yn croesawu ymateb Estyn i ymgynghoriad ar gynigion i ail-lunio'r ddarpariaeth feithrin yn nhref Rhydaman o fis Medi 2026, ac mae'n gwerthfawrogi'r gwerthusiad ystyriol o agweddau addysgol y cynnig.

**Cydnabod Safonau Addysgol a Rhesymeg**

Nodwn safbwynt Estyn fod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysgol a safonau disgyblion yn yr ardal. Mae'r ALI wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth feithrin yn cael eu hategu gan resymeg glir, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ac yn unol â phenderfyniad Cabinet y Cyngor i waredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Rydym yn falch fod Estyn yn cydnabod eglurder y rhesymeg a'r nod o sicrhau cysondeb a thegwch ar draws ysgolion Sir Gaerfyrddin.

**Ystyried Manteision, Anfanteision a Lliniaru**

Rydym yn cydnabod crynodeb Estyn fod yr ALI wedi nodi manteision ac anfanteision y cynnig, gan gynnwys y pontio â chymorth i blant 3 oed, cyfleoedd cyflogaeth, safoni'r ddarpariaeth, a'r potensial ar gyfer mwy o ofal cofleidiol. Mae'r ALI wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd a staff drwy unrhyw bontio, a bydd yn parhau i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw risgiau neu anfanteision a nodwyd, gan gynnwys yr effaith ar y rhai sy'n dibynnu ar ddarpariaeth amser llawn a'r newid o ethos ysgol fach.

**Yr Iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm**

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan Estyn na fydd y cynnig yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg a'i fod yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd. Mae'r ALI wedi ymroi o hyd i gryfhau addysg feithrin cyfrwng Cymraeg a sicrhau proses bontio hwylus rhwng addysg feithrin ac addysg gynradd yn ardal Rhydaman.

**Ansawdd yr Addysg a'r Arweinyddiaeth**

Mae'r ALI yn nodi cyfeiriad Estyn at ganlyniadau cadarnhaol yr arolygiad ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman, a'r sicrwydd y bydd Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu addysg o ansawdd cyfatebol o leiaf. Rydym wedi ymrwymo i

gynnal safonau uchel, darparu cwricwlwm effeithiol, a sicrhau arweinyddiaeth gref ym mhob lleoliad. Mae nod y cynnig i sicrhau arweinyddiaeth barhaol, amser llawn gan bennaeth i bob disgybl yn rhan allweddol o'n strategaeth ar gyfer gwella cynaliadwy.

**Defnydd Effeithlon o Adnoddau a Chynaliadwyedd**
Rydym yn cydnabod sylwadau Estyn ynglŷn â'r defnydd effeithlon o adnoddau, a'r potensial ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy i ysgolion lleol. Bydd yr ALI yn parhau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi darpariaeth o ansawdd uchel a chanlyniadau cadarnhaol i bob plentyn.

**Ymgysylltu Parhaus**
Mae'r ALI yn gwerthfawrogi mewnbwn Estyn a'r holl randdeiliaid yn y broses hon. Rydym dal wedi ymroi i gyfathrebu tryloyw, cynllunio gofalus, a gwerthuso parhaus i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n rhoi bod i'r canlyniadau gorau posibl i blant, teuluoedd, a'r gymuned ehangach.

## 8. Ymgynghori â Disgyblion

**Ysgol - Ysgol Feithrin Rhydaman**
**Dyddiad: 15/10/25**
**Y sawl a gafodd eu cyf-weld: 8 disgybl (Trawstoriad o oedrannau 3 a 4)**

**Adborth Disgyblion:**
Dywedodd y disgyblion y byddent yn colli chwarae gyda ffrindiau, chwarae yn yr awyr agored a thu mewn, garddio, gweithgareddau creadigol, a mannau ac arferion unigryw eu hysgol bresennol. Addaswyd yr ymgynghoriad i fod yn briodol i'r oedran, gan ganolbwyntio ar yr hyn fyddai plant yn ei golli fwyaf pe bai'r ysgol yn cau.

**Ymateb ALI:**

Mae'r ALI yn diolch i blant a staff Ysgol Feithrin Rhydaman am rannu eu meddyliau a'u teimladau. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfeillgarwch, chwarae, a threfniadau cyfarwydd i blant ifanc, a faint mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r amgylchedd a'r gweithgareddau unigryw yn eu hysgol. Os bydd unrhyw newidiadau, bydd yr ysgolion yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a staff i sicrhau bod plant yn parhau i gael cyfleoedd i chwarae, i fod yn greadigol, ac i ddysgu yn yr awyr agored, a sicrhau bod y pontio hwn yn digwydd mewn modd mor hwylus a chefnogol â phosibl. Bydd llesiant pob plentyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a byddwn yn ymdrechu i gynnal y profiadau meithringar a phleserus y mae disgyblion wedi'u disgrifio.

**Ysgol - Ysgol Bro Banw**
**Dyddiad: 15/10/25**
**Y sawl a gafodd eu cyf-weld: 14 disgybl (Trawstoriad o flynyddoedd 2-6)**

**Adborth Disgyblion Ysgol Bro Banw:**

At ei gilydd roedd disgyblion yn yn gadarnhaol ynglŷn â chroesawu plant iau, gan weld cyfleoedd o ran ffrindiau newydd, dysgu, a chefnogi eraill. Fe wnaethant hefyd fynegi pryderon am orlenwi posibl, lle cyfyngedig, sŵn, a'r angen am fwy o staff ac adnoddau. Roedd rhai disgyblion yn poeni am yr effaith ar arferion yr ysgol, gwasanaethau, a chyfleusterau, yn ogystal â materion ymarferol fel parcio a theithiau ysgol.

**Ymateb ALl:**

Mae'r ALl yn gwerthfawrogi'r adborth meddylgar ac adeiladol gan gyngor ysgol Bro Banw a'r disgyblion. Rydym wedi ein calonogi gan y parodrwydd i groesawu plant iau a'r gydnabyddiaeth y bydd manteision i gymuned ysgol fwy o faint a mwy cynhwysol. Ar yr un pryd, rydym yn cymryd o ddifrif y pryderon am ddiffyg lle, adnoddau, a'r effaith ar arferion dyddiol. Bydd yr ysgolion yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cynllunio'n ofalus, gyda buddsoddiad priodol mewn ystafelloedd dosbarth, staffio a chyfleusterau i gefnogi pob disgybl. Byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i fynd i'r afael â heriau ymarferol fel parcio ac i gadw'r amgylchedd cadarnhaol, gofalgar sy'n bwysig i'r disgyblion. Bydd barn disgyblion yn parhau i lywio ein penderfyniadau a'n cynlluniau.

**Ysgol - Ysgol Gymraeg Rhydaman**
**Dyddiad: 10/10/25**
**Y sawl a gafodd eu cyf-weld: 12 disgybl (Trawstoriad o flynyddoedd 3-6)**

**Adborth Disgyblion Ysgol Gymraeg Rhydaman:**

Roedd disgyblion ar y cyfan yn gadarnhaol am y syniad o groesawu plant iau, gan dynnu sylw at fanteision fel dysgu cynharach, pontio haws, rhagor o ffrindiau, a chyfleustra i deuluoedd. Roeddent hefyd wedi mynegi balchder yn eu gweithgareddau Cymraeg a'u gweithgareddau diwylliannol. Codwyd pryderon am ddiffyg lle, y posibilrwydd o golli cyfleusterau pwysig (fel y neuadd), a'r angen am ystafelloedd dosbarth ychwanegol. Awgrymodd y disgyblion atebion creadigol, megis defnyddio adeiladau eraill neu lecynnau awyr agored, a phwysleisio eu parodrwydd i helpu plant newydd i setlo i mewn.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Ymateb ALI:**

Mae'r ALI yn ddiolchgar i'r disgyblion a'r staff yn YGG Rhydaman am eu hymatebion manwl a meddylgar. Rydym yn falch o weld y brwdfrydedd dros groesawu disgyblion newydd a'r balchder ym mywyd Cymraeg a diwylliannol yr ysgol. Mae'r ALI yn cydnabod pryderon ynghylch lle a chyfleusterau, a bydd yn gweithio gyda'r ysgol i chwilio am atebion sy'n tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl ac sy'n cadw gweithgareddau gwerthfawr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cefnogi twf parhaus addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cynnal yr ethos cadarnhaol, cynhwysol a ddisgrifir gan ddisgyblion. Mae'r syniadau creadigol a'r parodrwydd i gefnogi plant newydd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'n cynllunio.

## 9. Dadansoddiad o Lythyr Rhieni dros Addysg Gymraeg

### Sylwadau Cefnogol

**Thema: Mynd i'r afael â Bylchau yn y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar**

- Mae'r cynigion yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mewn sawl dalgylch.

**Thema: Ehangu Trochi'n Gynnar yn y Gymraeg**

- Bydd y cynigion yn ehangu cyfleoedd ar gyfer trochi'n gynnar yn y Gymraeg, gan gefnogi datblygiad a pharhad ieithyddol.

**Thema: Proses Bontio Hwylus i Blant Ifanc**

- Disgwylir i'r cynlluniau hwyluso'r broses bontio i blant 3 oed i amgylchedd yr ysgol, gan gryfhau'r berthynas rhwng teuluoedd ac ysgolion.

**Thema: Cynaliadwyedd yr Ysgol**

- Effaith gadarnhaol ar hyfywedd ysgolion drwy leihau lleoedd gwag a chynyddu nifer y disgyblion.

**Thema: Hyrwyddo'r Gymraeg a'r Gymuned**

- Mae'r cynigion yn cefnogi ymgysylltu â'r gymuned a nodau strategol ehangach Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu cefnogaeth gref Rhieni dros Addysg Gymraeg i'r cynigion i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, ac i gryfhau parhad ieithyddol. Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol a Chynllun

Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sy'n blaenoriaethu trochi cynnar, ymgysylltu â'r gymuned, a chynaliadwyedd ysgolion. Bydd yr adborth cadarnhaol yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu statudol.

## Pryderon / Anghytuno

**Thema: Staffio a Chymhwysedd Iaith**

- Yr angen am gynlluniau clir ar staffio parhaol, gan gynnwys cymhwysedd yn y Gymraeg, er mwyn sicrhau trochi o safon uchel.

**Thema: Trochi'n Llawn yn y Gymraeg**

- Dylai'r ddarpariaeth gynnig trochi'n llawn yn y Gymraeg, nid sesiynau dwyieithog yn unig, er mwyn gwneud y mwyaf o ganlyniadau ieithyddol.

**Thema: Ymgysylltu â Rhieni**

- Dylid cynnwys cynlluniau gweithredu i ymgysylltu â rhieni, yn enwedig rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, ac i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg.

**Thema: Diogelu'r sector Cymraeg nas cynhelir**

- Ni ddylai'r cynigion danseilio darparwyr meithrin cyfrwng Cymraeg preifat a gwirfoddol; argymhellir cydweithio a monitro.

**Thema: Risgiau Pontio**

- Risgiau fod plant yn symud i ffrydiau cyfrwng Saesneg neu ysgolion Saesneg os nad yw'r trochi'n gadarn neu'n cael ei gyfathrebu'n glir.

**Thema: Monitro a Thargedau**

- Yr angen am dargedau mesuradwy ar gyfer cynnydd iaith a systemau i fonitro cyfran y ddarpariaeth a ddarperir yn Gymraeg.

**Thema: Mentrau Cymunedol**

- Cefnogaeth barhaus i fentrau cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth (e.e., clybiau'r Urdd, gwersi iaith i rieni, Mentrau Iaith).

### Ymateb yr Awdurdod Lleol

Rydym ni fel ALl yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn darparu llu o weithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyfoethogi profiadau plant a'u teuluoedd.

## 10. Casgliad

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r holl adborth i'r ymgynghori, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod ei asesiad gwreiddiol yn parhau i fod yn gadarn ac yn ddigyfnewid. Diolch yn fawr i'r holl randdeiliaid am eu cyfraniadau ystyriol yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, sydd wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses hon.

Ystyrir mai'r cynigion i gau Ysgol Feithrin Rhydaman ac ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11 yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Mae'r casgliad hwn wedi'i seilio ar:

- **Tegwch Addysgol:** Mae'r newidiadau'n angenrheidiol i gydymffurfio â gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, ac i gysoni'r ddarpariaeth feithrin ar draws Sir Gaerfyrddin.
- **Ansawdd yr Addysg:** Mae'r Awdurdod Lleol yn credu y gall Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman ddarparu addysg feithrin o ansawdd cyfatebol o leiaf, gyda manteision fel parhad addysg, mynediad at gronfa ehangach o staff, a darpariaeth Gymraeg gref.
- **Ymrwymiad i'r Gymraeg:** Mae'r cynigion yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a byddant yn cynnal neu'n gwella cyfleoedd cyfrwng Cymraeg.
- **Ystyriaethau Cymunedol ac Ymarferol:** Er ei fod yn cydnabod pryderon am golli lleoliad meithrin pwrpasol, mae'r Awdurdod Lleol yn cynllunio cymorth pontio a mesurau i liniaru effeithiau ar deuluoedd a'r gymuned.

Yn fyr, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell bwrw ymlaen â'r cynigion, oherwydd bernir eu bod yn deg, yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar.

## 11. Argymhelliad

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac asesiad manwl o'r cynigion, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell cau Ysgol Feithrin Rhydaman a bwrw ymlaen â'r newid i ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 heb ddiwygio. Mae'r

argymhelliad hwn yn adlewyrchu'r manteision clir a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg o'r meithrin i'r cynradd, gwella cynaliadwyedd y ddarpariaeth leol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygiad y Gymraeg.
Ar ôl ystyried yn ofalus ac adolygiad cynhwysfawr o'r holl adborth i'r ymgynghori a'r dystiolaeth ategol, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell bwrw ymlaen â'r cynigion fel maent wedi'u hamlinellu yn nogfen yr ymgynghoriad.

Gwneir yr argymhelliad hwn oherwydd bod y cynigion yn cael eu hystyried fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen i sicrhau:

- **Tegwch Addysgol:** Sicrhau bod y ddarpariaeth feithrin yn cyfateb ledled Sir Gaerfyrddin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed.
- **Ansawdd yr Addysg:** Sicrhau parhad dysgu o fewn un lleoliad ysgol, mynediad at gronfa ehangach o staff arbenigedd staff, a darpariaeth Gymraeg gref.
- **Ymrwymiad i'r Gymraeg:** Cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynnal neu wella cyfleoedd ar gyfer trochi'n gynnar yn y Gymraeg.
- **Ystyriaethau Cymunedol ac Ymarferol:** Sicrhau cyn lleied o darfu ag sy'n bosibl drwy gymorth pontio, a chadw mynediad lleol at ddarpariaeth feithrin o fewn pellter cerdded i'r safle presennol.
- **Cynaliadwyedd:** Creu model cyson, effeithlon ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar sy'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol ac yn cefnogi hyfywedd hirdymor.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn gweithredu mesurau i liniaru effeithiau ar deuluoedd, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth pontio, cynllunio capasiti, a chydweithio â darparwyr gofal plant i sicrhau bod opsiynau gofal cofleidiol dal ar gael.

## 12. Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion ai peidio neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os penderfynir bwrw ymlaen.